

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

### CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Asesiad o'n perfformiad yn 2016-2017



Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Strategaethau Corfforaethol ar 01639 763242 neu e-bostiwch: [corporate.strategy@npt.gov.uk](mailto:corporate.strategy@npt.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

## Cynnwys

Adran 1 - Deddfwriaeth Cydraddoldeb.....	2
Adran 2 - Trosolwg o gynnydd.....	3
Adran 3 - Cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb.....	4
Adran 4 - Bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Penodol .....	22
Adran 5 - Dweud eich dweud.....	26
Adran 6 - Mesurau Perfformiad.....	27

## **Adran 1 - Deddfwriaeth Cydraddoldeb**

### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, drwy gyfuno a disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol ar wrth-wahaniaethu, wedi symleiddio a chryfhau'r gyfraith, gan gael gwared ar anghysondebau a'i gwneud yn haws i bawb ei deall. Drwy roi'r Ddeddf ar waith, byddwn yn gweithio i greu cymdeithas decach, gwella gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog ac, yn y pen draw, wella bywydau pobl.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r cyngor, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith a rhwng pobl sy'n perthyn i wahanol grwpiau gwarchoddedig (adnabyddir hyn fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus).

Dyma'r grwpiau neu'r nodweddion gwarchoddedig:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- rhyw
- hil
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- tueddfryd rhywiol
- crefydd a chred
- priodas a phartneriaeth sifil (o ran yr angen i ddileu gwahaniaethu'n unig)

### **Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol wedi cael eu cyflwyno i'n helpu i gyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus ac mae'r rhain yn cynnwys llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a datblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb.

Caiff yr adroddiad blynyddol hwn ei baratoi o dan Adran 16(1) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## **Adran 2 - Trosolwg o gynnydd**

Yn ystod 2016-2017, gwnaethom gynnydd sylweddol tuag at fodloni'r amcanion cydraddoldeb, yn arbennig llunio'r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gwella cynhwysiad digidol a'r gwelliannau parhaus i'r amgylchedd yn enwedig gyda'r rhaglenni adfywio a gynhaliwyd yn yr ardal.

Gyda llawer o'r camau gweithredu'n cael eu cynnwys fel 'busnes fel arfer' ni fydd y rhain bellach yn cael eu hamlygu'n benodol yn adroddiadau'r dyfodol. Serch hynny, byddant yn parhau i gael eu monitro a byddant yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses gyffredinol.

Erys deall effaith ein polisiâu a'n gwasanaethau ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn rhan allweddol o'n gwaith. Rydym yn gwbl ymwybodol o'r angen i barhau i wella ein dealltwriaeth ac yn y pen draw leihau/waredu unrhyw rwystrau arwyddocaol y mae rhai grwpiau a warchodir yn eu hwynebu'n ddyddiol sy'n cael effaith ar eu cyfranogiad ym mywyd y gymuned ac wrth gael mynediad i wasanaethau.

Dros y flwyddyn, rydym wedi gweithio gyda chynrychiolwyr o'r Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du (BME) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot i recriwtio a phenodi gweithiwr datblygu'n arbennig i gefnogi datblygiad y fforwm. Bydd y gefnogaeth hon yn helpu i ddatblygu gallu a sgiliau ei aelodau, i'w grymuso i gymryd rhan lawn yn y gymuned ehangach a rhoi llais i gymunedau lleiafrifoedd ethnig a du yng Nghastell-nedd Port Talbot a'u cynrychioli.

## Adran 3 - Cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb

**Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig**

### 1. Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb a rhoi gwybod amdanynt

#### Beth wnaethom ni?

- Gwnaethom greu Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb CNPT sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys PABM a Tai Tarian (Cartrefi CNPT gynt). Nod y Grŵp Gweithredu yw cynyddu adrodd am droseddau casineb, cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb (partneriaid a'r cyhoedd) a chynyddu nifer y trydydd partïon sy'n adrodd amdanynt. Nodwyd camau gweithredu i sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyflwyno ar draws Castell-nedd Port Talbot. Un o'r camau gweithredu hyn yw gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr i nodi a chlustnodi gwybodaeth i'r holl grwpiau cymunedol.
- Nodwyd troseddau cyfeillio fel blaenoriaeth gan y Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb ac mae wedi'i chynnwys yn rhaglen waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol; trefnwyd sesiynau hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth o'r mater.
- Mae troseddau casineb yn eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd Cylch Gorchwyl Diogelwch Cymunedol sy'n trafod digwyddiadau ac ymgyrchoedd sydd ar ddod yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol CNPT yn parhau i dderbyn adroddiad perfformiad bob chwarter gan yr Heddlu sy'n cynnwys data, tueddiadau a meysydd pryder ar gyfer pob agwedd ar droseddau a gofnodwyd gan gynnwys troseddau casineb.
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr llwyddiannus ar droseddau casineb ym mis Chwefror 2017.
- Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau yn ystod wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Ymgysylltwyd â thros 700 o bobl mewn lleoliadau yng Nghastell-nedd a Phort Talbot ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a gwnaed mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhannu negeseuon dyddiol a fideos gwybodaeth;

gwyliwyd fideo o PC Chris Noblett 3,538 o weithiau. Gwyliwyd amrywiaeth o fideos eraill a oedd yn cynnwys siaradwyr ar gyfrifon Facebook a Twitter Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel gan 13,000 o bobl.

- Yn y digwyddiadau cyhoeddus, roedd aelodau o'r gymuned anabl am wybod beth oedd ystyr troseddau/digwyddiadau casineb, a chafwyd trafodaethau â'r tîm troseddau casineb.
- Penodwyd Adam Cameron yn swyddog datblygu BME ym mis Hydref 2016 ac mae wedi dechrau ar raglen waith uchelgeisiol sy'n cynnwys adeiladu proffil o gymunedau BME yn yr ardal. Ar wahân i ddefnyddio'r wybodaeth i ddeall barn cymunedau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn well, bydd eu profiad o droseddau casineb yn amhrisiadwy ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth/hyfforddiant yn ogystal ag adolygu unrhyw weithdrefnau adrodd presennol.

## **2. Cryfhau gwaith partneriaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig a sefydlu dulliau amlasiantaeth i gefnogi pobl sydd mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a throseddu cyfundrefnol**

### **Beth wnaethom ni?**

- Ffocws ein gwaith yn y maes cam-drin domestig oedd datblygu Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r strategaeth, a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol CNPT mewn ymateb i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, wedi'i datblygu ar y cyd â Bwrdd Iechyd PABM.

Yn ystod y broses ddatblygu, crëwyd Grŵp Arweinyddiaeth ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i ddisodli'r Grŵp Strategaeth Cam-drin Domestig. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth hwn yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth amrywiol, Prif Swyddogion o sefydliadau partner amrywiol a darparwyr arbenigol, gan gynnwys PABM, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Calan DVS, Cymorth i Fenywod Port Talbot ac Afan a Hafan Cymru.

Mae'r strategaeth yn darparu trosolwg o'r sefyllfa yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae'n nodi bylchau yn narpariaeth gwasanaethau a meysydd i'w gwella, sy'n cael eu trafod yn amcanion y strategaeth drwy gyfres o gamau gweithredu cyraeddadwy. Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth ar VAWDASV yn gyfrifol am gyflwyno'r camau

gweithredu hyn ac adrodd am eu cynnydd.

Er mwyn datblygu'r strategaeth, cynhaliwyd sawl gweithdy ymgynghori a chynnwys gyda rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys adrannau mewnol, sefydliadau partner a goroeswyr. Lansiodd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y strategaeth ddrafft ym mis Mawrth 2017. Cafodd yr adborth ei ystyried a gwnaed newidiadau priodol i'r strategaeth er mwyn adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd.

- Er bod y Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnwys peth data gwaelodlin, nodwyd bylchau yn y data ac ymdrinnir â hyn ynghyd â datblygu mesurau yn ystod 2017-2018.
- Caiff y strategaeth ei lansio'n swyddogol ym mis Hydref 2017 gyda theitl newydd (mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad); Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach Castell-nedd Port Talbot 2016-2019.
- Yn 2016-2017, roedd 2 Ymgynghorydd Annibynnol ar Gam-drin Domestig CALI yn y tîm Diogelwch Cymunedol yn gweithio gyda 461 o atgyfeiriadau cam-drin domestig risg uchel; o'u cymharu â 344 yn 2015-2016.
- Mae'r tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio gyda phartneriaid mewn ysgolion ac ar ddiwyddiadau arbennig. Er enghraifft, roedd y tîm wedi gallu cyfleu neges bwysig i oddeutu 1,800 o ddisgyblion blwyddyn 6 mewn digwyddiad Criw Croch ym mis Mehefin 2016 ynghylch pwysigrwydd perthnasoedd iach.
- Roedd digwyddiadau cynnwys y cyhoedd amrywiol yn ystod Wythnos y Rhuban Gwyn wedi galluogi'r tîm i ymgysylltu â thros 1,000 o bobl mewn digwyddiadau amrywiol a darllenwyd deunydd a oedd yn ymwneud â'r Rhuban Gwyn ar Facebook 17,000 o weithiau.
- Yn ystod 2016-2017, darparwyd lloches dros dro yng Nghastell-nedd Port Talbot i 177 o fenywod a bu 785 o bobl dros 16 oed yn defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan Calan DVS a Chymorth i Fenywod Port Talbot ac Afan.
- Gwnaethom gyflwyno rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr WRAP (Gweithdy i Gynyddu Ymwybyddiaeth o Prevent) a achredwyd gan y Swyddfa Gartref i 12 o staff a wnaeth yn eu tro gyflwyno'r hyfforddiant i 500 o staff eraill.
- Mae Panel Channel CNPT yn parhau i reoli a monitro ymyriadau. Yn ystod y flwyddyn, 2016-2017, cafwyd 6 atgyfeiriad i'r Panel Channel.

- Gwnaethom ddatblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth Panel Channel.
- Ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf yn y DU i gymryd rhan mewn cynllun peilot Adolygiad Cyfoedion Prevent yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a gynhaliwyd dros ddeuddydd ar 25-26 Ionawr 2017. Mae'r adolygiad yn cydnabod, er mai ein hymrwymiad yw cyflwyno Prevent a bod dadansoddiad anghenion hyfforddiant da ar waith, mae ein proses asesu risg bresennol yn wan, mae angen cynllunio dilynol gwell arnom a dylem archwilio'r cyfle i rannu gwaith ar lefel is-ranbarthol.
- Mae cynllun gweithredu Prevent drafft sy'n seiliedig ar ddadansoddiad bwlch o'r ddeddfwriaeth a fydd yn cyfeirio gwaith cynnwys ac ymyrryd lleol wedi'i ddatblygu.
- Mae gwasanaeth Pwynt Cyswllt Unigol y gwasanaethau cymdeithasol wedi datblygu llwybr atgyfeirio.
- Mae gwybodaeth a CTLP (Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth) yn cael eu derbyn yn rheolaidd gan WECTU ac maent yn cael eu trafod yng ngrŵp Gweithredu Prevent, sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac ym Mwrdd CONTEST rhanbarthol Bae'r Gorllewin.



## **Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad i wybodaeth drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill**

### **1. Gwella cynnwys gwefan y cyngor**

#### **Beth wnaethom ni?**

- Gan adeiladu ar y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd presennol, sy'n cynnwys cynhwysiad digidol, llythrennedd ariannol, cymorth cyflogaeth a chyngor ar fudd-daliadau, rydym wedi datblygu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, ar y cyd â CGG Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd PABM, sy'n hygyrch o'n gwefan. Cyhoeddwyd Cyfeiriadur Cymunedol, sy'n nodi manylion cyswllt amrywiaeth eang o grwpiau a sefydliadau ar draws Castell-nedd Port Talbot, ar 1 Ebrill 2017.
- Siarter Cynhwysiad Digidol. Cynhaliwyd trafodaethau â phartneriaid sydd wedi cytuno i gefnogi'r gwaith hwn a fydd yn cynorthwyo mwy o bobl i gael eu cynnwys yn ddigidol a mwynhau manteision bod ar-lein. Mae gwaith i uwchsgilio staff o ran llythrennedd digidol yn mynd rhagddo gyda chefnogaeth yr undebau llafur; bellach mae gennym 12 o 'gynrychiolwyr dysgu' undebau sy'n helpu i gyflwyno hyfforddiant sgiliau digidol.
- Rydym hefyd wedi sicrhau cefnogaeth y trydydd sector lleol i gyflwyno cais am y Siarter ac i ymgymryd â phrosiect ymchwil i nodi gallu ar draws cymunedau Castell-nedd Port Talbot. Mae Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned wedi cytuno i gefnogi gwaith y cyngor ar gynhwysiad digidol ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cefnogi hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y bwrdd ym mis Rhagfyr 2016.
- Nid yw data o ran 'cynyddu nifer y bobl rydym yn eu cefnogi i ddatblygu sgiliau digidol i gael mynediad i wasanaethau' ar gael ar hyn o bryd ond mae'n waith sy'n cael ei ystyried gan y grŵp tasg a gorffen sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gwasanaeth.
- Ar 31 Mawrth 2017, roedd 99.9% o'n tudalennau ar gael yn Gymraeg; mae'r un dudalen sy'n weddill yn y broses o gael ei chyfieithu.
- Darllenwyd 1,789 o dudalennau'r wefan yn Gymraeg ym mis Mawrth 2017; darllenwyd 260,178 o dudalennau'r

wefan yn Saesneg ar gyfer yr un cyfnod.

- Mae ein gwefan wedi'i hail-ddylunio gyda'r wefan newydd sbon yn gwbl weithredol a bellach yn hygyrch ar bob dyfais symudol heb golli golwg gyffredinol y wefan.
- Gwnaed gwaith yn ystod 2015 a 2016 i wella ein gwefan, gan gynnwys ei gwneud yn 'hygyrch' i ffonau symudol a thabledi yn ogystal â chyfrifiaduron a gliniaduron; ac mae cyflwyno cyfres o fotymau 'galw i weithredu' sy'n ei gwneud hi'n haws i ofyn am wasanaethau gan y cyngor a chyfres o lyfrgelloedd digidol, lle gall y cyhoedd lawrlwytho dogfennau'n syth i'w dyfeisiau, wedi arwain at gyfraddau bodddhad cwsmeriaid gwell.
- O ganlyniad i'n gwaith i wella a diweddarau cynnwys ein gwefan yn ogystal â'i gwneud yn haws i'w defnyddio (e.e. mynediad drwy ddyfeisiau symudol), mae lefelau bodddhad cwsmeriaid wedi cynyddu. Roedd 97% o gwsmeriaid ein gwefan yn fodlon iawn/fodlon neu'n hapus o ran ei golwg a'i naws; roedd 91% yn fodlon iawn/fodlon neu'n meddwl bod y wefan yn iawn o ran hwylustod llywio'r safle; dywedodd 84% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon iawn/fodlon neu'n meddwl bod ein gwefan yn iawn o ran rhwyddineb dod o hyd i wybodaeth a gwasanaethau.
- Rydym wedi gwella graddfa broffesiynol SOCITM ar gyfer ein gwefan o 2 seren ar 31 Mawrth 2016 i'n targed o 3 seren ar 31 Mawrth 2017 (y raddfa uchaf yw 4 seren). Nid oes unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru wedi derbyn 4 seren.
- Ar hyn o bryd, mae wyth gwasanaeth trafodaethol llawn ar-lein ar y wefan gyda llawer o wasanaethau eraill wedi'u galluogi'n rhannol. Mae pedwar arall yn cael eu datblygu, 14 ar gam achos busnes a 41 o syniadau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd ar-lein yn llawn, mae trafodaethau ar-lein eto wedi cynyddu o 57% yn 2015-2016 (ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd ar-lein yn llawn) i 67.7% yn 2016-2017.
- Yn ystod 2016-2017, adolygwyd ein trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, a arweiniodd at newid ein meddalwedd ymgynghori ar-lein i Snap. Serch hynny, Objective yw'r prif ddull ymgynghori ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol o hyd.

## 2. Cynyddu hygyrchedd gwybodaeth/dogfennaeth

### Beth wnaethom ni?

- Rydym wedi creu cyfeiriadur cymunedol, fel rhan o'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, i ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n darparu gwybodaeth a mynediad i amrywiaeth o wasanaethau cyffredinol yn y fwrdeistref sirol.
- Mae'r gwasanaeth cydlynu ardaloedd lleol wedi helpu unigolion i gael mwy o annibyniaeth a rheolaeth dros eu bywydau, gyda 143 o unigolion yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gyda bron 50% yn dychwelyd i gael mwy o gefnogaeth anffurfiol yn hytrach na defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol llawn.
- Rydym wedi sicrhau bod cyflwyno'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn bodloni gofynion yr unigolyn, drwy becynnau gwybodaeth, ymweliadau cartref, allgymorth, gwasanaethau dros y ffôn etc.
- Rydym wedi diwygio ymhellach ein llofnodion ar e-byst yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg a roddwyd arnom.
- Mae testun sy'n gwahodd unigolion i'n hysbysu o'u dewis iaith wedi'i gynnwys yn y templedi llofnod. Lluniwyd cronfa ddata i goladu'r wybodaeth hon, a chaiff ei diweddarau'n awtomatig wrth gwblhau ffurflen electronig. Hyd yn hyn, ni chafwyd unrhyw gofnodion yn y gronfa ddata.

## **Amcan Cydraddoldeb 3 - Gwella mynediad i wasanaethau drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle y bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill**

### **Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol**

#### **Beth wnaethom ni?**

- Mae model sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau arfer gwaith cymdeithasol wedi'i gynnwys yn y gwasanaethau plant a phobl ifanc. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i ystyried eu nodau lles personol a chydgyhyrchu atebion fel bod plant yn parhau i fod yn ddiogel yn eu cartref teuluol ac yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- I gefnogi'r ffordd newydd hon o weithio, mae gwelliannau i'r systemau TG bellach ar waith i sicrhau bod cofnodi ac adrodd am 'ganlyniadau personol' yn fwy cadarn.
- Mae rhaglen waith bellach wedi'i threfnu ar gyfer 2017-2018 a fydd yn cynorthwyo'r ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gael ei hymgorffori ymhellach yn arfer gwaith cymdeithasol bob dydd yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae fframwaith monitro ac adrodd effeithiol hefyd wedi'i sefydlu yn erbyn gofynion y Ddeddf a bydd hyn yn parhau i gael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn i ddod i sicrhau ein bod yn gallu adrodd am wybodaeth rheoli perfformiad gadarn o ran effeithiolrwydd gwaith cydgyhyrchiol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- O'r plant dros 7 oed, gwnaeth 76% o'r oedolion a'r gofalmwyr a ymatebodd i'r Arolwg Dinasyddion ym mis Tachwedd 2016 gadarnhau eu bod wedi derbyn yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt.
- Yn ystod 2016-2017, mae'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wedi annog a chefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt yn bersonol a llywio cyfeiriad strategol y gwasanaeth.
- Rydym wedi datblygu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Wrth wraidd hyn oedd datblygu system TG bwrpasol, wedi'i dylunio i hwyluso'r broses o ymyrryd ac atal drwy nodi'n gynnar ganlyniadau personol unigolyn a'r trefniadau cefnogi dilynol sy'n gweddu orau i'w anghenion.

- Rydym wedi cyflwyno Cydlynu Ardaloedd Lleol (CALI), ymagwedd sy'n canolbwyntio ar newid gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol. Strategaeth ataliol sy'n canolbwyntio ar y person yw hi, gan ddefnyddio cydgynhyrchu i helpu unigolion i fyw bywydau gyda mwy o reolaeth ac annibyniaeth, yn ogystal â datblygu gallu cymunedau a gwella ymatebolrwydd gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion wedi mireinio eu harfer a'u prosesau cynllunio gofal yn 2016-2017. Rhoddwyd sylw arbennig i sicrhau bod ein cynlluniau gofal a chefnogaeth yn cael eu cydgynhyrchu rhwng gweithwyr proffesiynol a'r unigolion y maent yn berthnasol iddynt.
- Yn ystod 2016/2017, hwylusodd ein cydlynwyr ardaloedd lleol 27 o ddigwyddiadau cymunedol, gan gysylltu dros 120 o bobl â grwpiau lleol, y trydydd sector ac unigolion lleol eraill. Mae 33% o'r bobl a gysylltwyd wedi parhau i fynychu grwpiau cymunedol, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol â ffrindiau newydd.
- Gwnaeth ein Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc feithrin cysylltiadau â'r prosiect "Down to Earth". Mae'r prosiect wedi gweithio gyda nifer o'n pobl ifanc ddiamddiffyn a difreintiedig i'w cefnogi drwy ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y berthynas, yn seiliedig ar weithgareddau ystyrlon ac ymarferol, megis adeiladu lleoliadau hyfforddiant o'r radd flaenaf sy'n lleoliadau ar gyfer cyfranogwyr y dyfodol.
- Mae canlyniadau Proses Holiadur Ansoddol Llywodraeth Cymru'n nodi bod 92.7% o blant a phobl ifanc yn teimlo y gwrandawyd ar eu barn am eu gofal a'u cefnogaeth, gyda 85.7% o rieni'n ymateb eu bod wedi bod yn rhan o'r holl benderfyniadau am y ffordd y darparwyd gofal a chefnogaeth eu plentyn/plant. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i lywio gwasanaethau yn y dyfodol yn unol ag anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Mae'r Swyddog Cynnwys a Chyfranogiad wedi ymgymryd â nifer o fentrau cymunedol sy'n ceisio cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, er hynny nid o angenrheidrwydd yn targedu grwpiau penodol. Cydnabuwyd bod cynnwys a chyfranogiad yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a fydd yn cynorthwyo ein hymdrechion i hyrwyddo llais y plentyn.

## **Amcan Cydraddoldeb 4 - Monitro gwybodaeth a data'n effeithiol er mwyn nodi anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig**

### **Datblygu systemau monitro cadarn o fewn gwasanaethau**

#### **Beth wnaethom ni?**

- Yn ystod 2016-2017, rydym wedi gwella'r ffordd rydym yn casglu ein data. Mae meysydd gwasanaeth yn gwella'r ffordd y maent yn casglu data defnyddwyr gwasanaeth drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys ffurflenni cais, arolygon boddhad cwsmeriaid, ymarferion ymgynghori a monitro.
- Mae casglu data cyflogaeth yn parhau i fod yn heriol. Serch hynny, datblygwyd y porthol i weithwyr a fydd yn goresgyn rhai o'r materion casglu data sydd wedi ein poeni dros y blynyddoedd diwethaf.
- Cafodd y Porthol i Weithwyr, a dreialwyd yn ystod chwe mis cyntaf 2017, ei gyflwyno i'r holl weithwyr ym mis Awst 2017. Mae staff yn gallu diweddarau eu cofnodion AD, cyrchu'r porthol drwy'r fewnryd, sy'n galw am wasanaeth gwybodaeth mwy effeithlon am y gweithlu gyda data gwell a mwy dibynadwy.
- Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb nid er mwyn amlygu data ac unrhyw fylchau mewn gwybodaeth yn unig ond hefyd fel modd o gau'r bylchau hynny: drwy gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth ac ymarferion ymgynghori i gasglu data yn ogystal â deall effaith ein gweithredoedd ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
- Yn ystod 2015-2016, buom yn gweithio gyda'r Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot i nodi gofynion cefnogi priodol i gael swydd gweithiwr datblygu i helpu i gefnogi a datblygu'r fforwm. Arweiniodd y gwaith hwn at benodi Adam Cameron ym mis Hydref 2016.

Bu Adam yn gweithio ar nifer o brosiectau i ddatblygu'r fforwm dros y misoedd diwethaf. Datblygwyd rhaglen waith uchelgeisiol gan adeiladu ar y gwaith cychwynol a wnaed yn ystod misoedd cynnar cyflogaeth Adam.

Nodwyd, er mwyn gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu'r fforwm yn ogystal â'i roi ar sylfeini ariannol a chynaliadwy mwy diogel, bod y fforwm wedi'i sefydlu o dan enw Cymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du Castell-nedd Port Talbot. Mae tri aelod etholedig, Aelodau'r Cabinet dros y Gwasanaethau Corfforaethol a Diogelwch Cymunedol ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Polisiâu ac Adnoddau, yn eistedd ar ei bwyllgor gwaith fel cyswllt amhrisiadwy â'r gymdeithas.

- Mae ein ffurflen AEC ac arweiniad wedi'u diwygio i gryfhau'r adran ymgynghori/ôl-ymgyngori yn ogystal ag ystyried gofynion llunio polisiâu Safonau'r Gymraeg. Rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i ddatblygu'r fframwaith asesu effaith fel offeryn integreiddio i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Rydym yn cwrdd â theuluoedd yn rheolaidd i gynnig cyngor a chefnogaeth pan fo'u hangen. Drwy ein cysylltiadau â'r prosiect Teithio Ymlaen, mae plant yn cael cyfle i gael mewnbwn i'r broses benderfynu.

## Amcan Cydraddoldeb 5 - Cyflwyno hyfforddiant i staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb

### Beth wnaethom ni?

- Rhoddwyd cyngor a chymorth i'r aelodau staff hynny sy'n gyfrifol am gwblhau Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb. Ystyrir mwy o sesiynau hyfforddi cyffredinol i gefnogi staff sy'n newydd i gyfrifoldebau ymgymryd ag aseidiadau effaith.
- Datblygwyd rhaglen Sefydlu Aelodau ar gyfer cyflwyno i'r weinyddiaeth newydd sy'n cynnwys manylion y broses Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb a chyfrifoldebau aelodau o ran cydraddoldeb yn gyffredinol.
- Cynhaliwyd sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr WRAP (Gweithdy i Gynyddu Ymwybyddiaeth o Prevent) ym mis Tachwedd 2016 ac mae 12 aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant a achredir gan y Swyddfa Gartref. Mae'r 'hyfforddwyr' hyn wedi cyflwyno hyfforddiant i 500 o staff.



## **Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill**

### **1. Gwella hygyrchedd corfforol i swyddfeydd dinesig ac adeiladau eraill y cyngor ac ynddynt**

#### **Beth wnaethom ni?**

- Gohiriwyd adolygu arwyddion yn adeiladau'r cyngor a'r swyddfeydd dinesig, gan aros am benderfyniad Comisiynydd y Gymraeg ar her y cyngor i 54 o Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys y safon sy'n ymwneud ag arwyddion.
- Mae mynediad allanol i swyddfeydd dinesig wedi'i adolygu a gosodwyd canllawiau newydd, nwyddau haearn ar ddrysau a gwnaed gwelliant i welededd grisiau etc. yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot.
- Rydym yn parhau i gysylltu â'r tîm cefnogaeth synhwyrdd, grwpiau cydraddoldeb lleol a phartneriaid eraill i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw broblemau i bobl â nam ar y golwg neu'r clyw. Bydd hon yn agwedd hanfodol ar yr adolygiadau o ran arwyddion a'n gweithgareddau hygyrchedd eraill.

### **2. Sicrhau bod celfi, arwyddion, colofnau goleuadau stryd etc mewn mannau priodol**

#### **Beth wnaethom ni?**

- Agorodd Ysgol Bae Baglan ym mis Medi 2016. Yn ystod dylunio'r ysgol a'i hamgylchoedd, rydym wedi bod yn ymwybodol o unrhyw faterion hygyrchedd ac rydym wedi sicrhau bod cyfleusterau'r ysgol o'r radd flaenaf ac yn gwbl hygyrch. Mae 1519 o ddisgyblion, 3 i 16 oed, bellach yn mwynhau ei chyfleusterau.
- Rydym yn parhau i weithio gyda grŵp lleol, Rhianna's Swing, i osod darpariaeth chwarae newydd i blant ag anableddau ym Mharc y Gnoll. Mae'r ardal i'w phrydlesi wedi'i chytuno mewn egwyddor ac mae codi arian yn parhau er mwyn gwireddu'r prosiect hwn. Mae Rhianna's Swing wedi cyflwyno cais llwyddiannus i gynllun bagiau Tesco ac wedi sicrhau grant gwerth £10,000 felly prynwyd trogylch sy'n hwylus i'r anabl sydd wedi'i osod yn y maes chwarae presennol.

### 3. Dylunio a chyflwyno prosiectau adfywio

#### Beth wnaethom ni?

- Mae Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd (DNAG) yn parhau i fod yn aelod allweddol o'r Grŵp Rhanddeiliaid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac mae gweithio gyda'r grŵp yn y ffordd hon wedi'n helpu i gyflwyno 5 prosiect hygyrch ers 2015. Gofynnir am gyngor amhrisiadwy'r DNAG o hyd ar gyfer y prosiectau hynny sy'n cael eu datblygu/ar fin dechrau.
- Er bod y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2017 bydd rhai prosiectau'n parhau i gael eu cyflwyno dros y 12 i 15 mis nesaf, gan gynnwys gwaith ar safle Ysgol Glan Afan, Tŷ Aberafan, hen orsaf yr Heddlu, ymysg eraill.
- Ym mhob un o'r cynlluniau adfywio a gynhaliwyd hyd yn hyn, roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan y DNAG ac eraill wedi llywio'r dyluniad i sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl â phroblemau symudedd a hygyrchedd eraill.
- Bydd Hwb Trafnidiaeth Integredig Port Talbot, a fydd ar waith yn hydref 2017, yn fan cyhoeddus cwbl hygyrch gyda chymorth DNAG ar y cam dylunio. Mae nodweddion hygyrch ychwanegol wedi'u cynnwys yn y datblygiad gyda sgriniau gwybodaeth newydd sydd wedi'u galluogi ar gyfer yr RNIB.
- Mae'r sgriniau gwybodaeth newydd yng Ngerddi Victoria, Castell-nedd, Gorsaf Fysus Port Talbot a'r hwb newydd wedi'u galluogi ar gyfer yr RNIB ac yn gallu cynnal gwybodaeth amser go iawn, unwaith y byddant ar waith yn ein hardal.
- Cymeradwywyd cam nesaf cynllun gwella canol tref Castell-nedd yn ystod 2016-2017. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys adeiladu hyd at chwe uned fanwerthu newydd a 12 fflat ar dir y tu ôl i iard wasanaeth Boots a bydd yn arwain at gysylltiadau gwell rhwng canol y dref a chyfleusterau allweddol megis Neuadd Gwyn a'r orsaf fysus. Rydym yn bwriadu parhau i weithio gyda'r DNAG i sicrhau bod hygyrchedd yn cael ei ystyried ar y cam dylunio a thrwy gydol y datblygiad i sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau'r gwelliannau hyn.

## **Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion yn sgîl eu nodweddion gwarchoddedig**

### **1. Cynyddu lefelau presenoldeb disgyblion â'r nodweddion gwarchoddedig**

#### **Beth wnaethom ni?**

- Cafodd data gwaharddiadau ei fonitro'n agos ac mewn ymateb i gynnydd yn y gwaharddiadau tymor penodol a pharhaol, sefydlwyd tîm lles ac ymddygiad ac mae rheolwr dynodedig wedi'i benodi er mwyn mynd i'r afael â hyn.
- Mae'r tîm lles ac ymddygiad yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol allweddol i ddatblygu pecyn hyfforddi ar gyfer yr holl ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad (SEBD), a dechreuwyd cyflwyno hwn yn ystod tymor y gwanwyn 2016-17. Bydd y newid hwn i wasanaethau a darpariaeth ar waith yn yr holl ysgolion o fis Medi 2017 gyda'r nod o gynnwys continwwm o gefnogaeth a gwella gallu mewn ysgolion, fel rhan o gynllun tymor hir y cyngor i sicrhau bod anghenion disgyblion SEBD yn cael eu bodloni'n effeithiol.
- Mae lefelau presenoldeb ymhlith disgyblion Sipsiwn a Theithwyr wedi parhau'n sefydlog yn y sector cynradd, ond mae presenoldeb yn y sector uwchradd wedi gostwng o 86.6% yn 2015-2016 i 85.63% yn 2016-2017 (blynyddoedd academaidd).
- Mae Addysg Teithwyr yn parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr drwy Fforwm Sipsiwn a Theithwyr CNPT. Gobeithio y bydd arian yn cael ei sicrhau'n fuan er mwyn prynu lle symudol er mwyn i asiantaethau ymweld â'r gymuned i gynnig cefnogaeth. Bydd yr arian hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer clwb gwaith cartref a chefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen.
- Mae lefelau presenoldeb yn yr ysgol gynradd wedi cynyddu ychydig yn ystod 2016-2017 i 94.69% o'u cymharu â 94.55% yn y flwyddyn flaenorol. Serch hynny, mae lefelau presenoldeb yn yr ysgol uwchradd wedi gostwng ychydig, 93.38% o'u cymharu â 93.56%.

## 2. Lleihau'r bylchau rhwng cyrhaeddiad perfformiad addysgol bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnodau Allweddol (CA) 2 a 3

### Beth wnaethom ni?

- Mae amrywiaeth eang o gyrsiau sy'n gysylltiedig â'r ddewislen cymorth rhanbarthol ar waith ar gyfer yr holl ysgolion. Caiff y rhain eu cyflwyno gan swyddogion ERW/CNPT. Mae'r cyrsiau hyn yn mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion sy'n ceisio gwella lleferydd, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Roedd y cyrsiau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr.
- Mae deilliannau llythrennedd ar ddiwedd y cyfnod sylfaen wedi gostwng o 84.6% (blwyddyn academaidd 2014-2015) i 82.0% (blwyddyn academaidd 2015-2016). Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y garfan ond hefyd oherwydd asesiadau athrawon mwy cadarn. Mae deilliannau llythrennedd wedi cynyddu 1.5% yng Nghyfnod Allweddol 2, wedi gostwng ychydig i 84.7% yng Nghyfnod Allweddol 3 ac mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 mewn iaith (Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg) wedi cynyddu i 69.6%.
- Yn ein hysgolion cynradd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni deiliant 5 mewn sgiliau datblygiad mathemategol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi gostwng 1% i 84.2%, ond mae deilliannau rhifedd Cyfnod Allweddol 2 wedi cynyddu bron 3% i 88.4%.
- Mae gwasanaeth Addysg Teithwyr yn parhau i weithio'n agos gyda'r gymuned a'n hysgolion. Mae'r gwasanaeth wedi darparu mwy o gefnogaeth o ganlyniad i gynnydd yn nifer y staff yn y gwasanaeth.
- Er bod y bwch cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched wedi culhau ym mlwyddyn academaidd 2016-2017 yn y ddau faes (llythrennedd 11.18% a rhifedd 5.89%), mae cyrhaeddiad merched yn ystod y flwyddyn wedi gostwng ychydig ac mae'r bechgyn wedi dangos gwelliant, yn arbennig mewn rhifedd.
- Cafwyd gostyngiad sylweddol yng nghyrrhaeddiad bechgyn mewn llythrennedd a rhifedd (11.02% ac 11.12% yn ôl eu trefn). Mae cyrhaeddiad merched wedi gostwng hefyd yn y ddau faes. O ganlyniad i lefelau cyrhaeddiad is mewn llythrennedd, mae'r bwch cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched wedi dangos cynnydd sylweddol, o 12.22% yn mlwyddyn academaidd 2015-2016 i 20.98% yn 2016-2017.

## **Amcan Cydraddoldeb 8 - Sicrhau bod ein prosesau cyflogi a recriwtio'n hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb.**

### **Beth wnaethom ni?**

- Mae'r cyngor yn gyflogwr 'hyderus wrth ymdrin ag anabledd'. Mae'r cynllun hyderus wrth ymdrin ag anabledd yn annog gweithwyr i fod yn fwy hyderus fel eu bod yn cyflogi ac yn cadw pobl anabl, yn gwella dealltwriaeth o anabledd a manteision cyflogi neu gadw pobl anabl er mwyn gwneud cyfraniad pwysig at haneru'r bwch o ran cyflogi'r anabl. Drwy barhau â'n taith hyderus wrth ymdrin ag anabledd, mae'r cyngor yn sicrhau bod pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd tymor hir yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau.
- Rydym yn cydnabod sefyllfa fregus grwpiau penodol o fewn ein gweithlu, ac o ganlyniad rydym yn datblygu polisiau i ddarparu cefnogaeth. Rydym wedi llunio polisi ailbennu rhywedd, a gymeradwywyd ym mis Medi 2017, sy'n sicrhau bod gweithiwr sy'n bwriadu, wedi dechrau neu wedi gorffen proses i newid ei ryw yn cael ei drin ag urddas a pharch.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwybodaeth am ein gweithlu wedi gwella a dylai barhau i wneud hynny gyda chyflwyno'r porthol i weithwyr yn 2017. Mae dadansoddi data hefyd yn parhau a byddwn yn ystyried ymgymryd â phrosiectau annibynnol i nodi ymhellach anghysondebau yn ein gweithlu, a'u deall.
- Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi casglu ac adrodd am [Wybodaeth Cyflogaeth](#) yn unol â gofynion deddfwriaethol ar gyfer y cyfnod 2016-2017.

**Amcan Bwlch Cyflog y Rhywiau - datblygu data cyflog/cyflogaeth ymhellach er mwyn deall yn well y rhesymau dros y bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau a nodi unrhyw gamau y gellir eu cymryd i leihau'r bwlch cyflog.**

### **Beth wnaethom ni?**

- Rydym yn parhau i adrodd am wybodaeth bwlch cyflog fel rhan o'r adroddiad blynyddol am wybodaeth gyflogaeth a adroddir i Aelodau ym mis Medi bob blwyddyn.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau arferion teg a chyfiawn, gwnaethpwyd ymrwymiad polisi fel rhan o gyflwyno gwerthuso swyddi yn 2008 y bydd pob gweithiwr newydd yn dechrau ar bwynt isaf y raddfa. Erys y polisi hwn ar waith a chaiff ei fonitro drwy'r Ffurflen Monitro Cyflogau Cychwynnol.
- Yn dilyn cyflwyniad ar fwch cyflog y rhywiau i'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Penaethiaid Gwasanaeth, nodwyd nifer o ymholiadau i'w hystyried ymhellach yn dilyn ethol y weinyddiaeth newydd.

## Adran 4 - Bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Penodol

Wrth fodloni'r amcanion cydraddoldeb, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r heriau ariannol parhaus, llai o allu, mwy o ddisgwyliadau a demograffig newidiol Castell-nedd Port Talbot. Rydym yn ceisio ymgymryd â'n holl waith gan ddefnyddio gwybodaeth am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'n hymroddiad iddi.

Gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar wella hygyrchedd ein gwefan, gweithio i fynd i'r afael â throseddau casineb a thrais domestig a gwella ein proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb, rydym wedi gwella meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb a'n blaenoriaethau gwella corfforaethol wedi'u hunioni i sicrhau ymagwedd fwy cyfannol. Mae hyn wedi sicrhau bod y cynnydd a wnaed yn gyflenwol i'r ddau, er enghraifft, mae'r gwaith ar wella cynhwysiad digidol ar draws y fwrdeistref sirol wedi helpu i fodloni ein hamcanion cydraddoldeb a'n blaenoriaeth gwella ehangach. Gellir dod o hyd i'n cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gwella yn [Adroddiad Blynyddol Cynllun Gwella Corfforaethol 2016-2017](#).

Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2015. Ar ôl ystyried goblygiadau'r safonau, cyflwynodd y cyngor her ym mis Ionawr 2016 yn erbyn 55 o'r safonau, gyda 54 o'r safonau'n cael eu hystyried yn ddilys. Ers yr amser hwnnw, rydym wedi cynnal trafodaethau â'r Comisiynydd a'i chynrychiolwyr i ganfod ffordd ymlaen sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr. Ym mis Ebrill 2017, derbyniwyd penderfyniad y Comisiynydd o ran 23 o'r safonau (penderfynwyd ar 22 o'r safonau eisoes). Mae trafodaeth i ddatrys ein gwahaniaethau o ran y 9 safon sy'n weddill yn parhau.

Cafodd ein [Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2016-2017](#), yr adroddiad blwyddyn lawn cyntaf am sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau hynny, ei gyhoeddi ar 30 Mehefin 2017 yn unol â gofynion statudol.

## **Nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol**

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd, partneriaid, cymunedau lleol a grwpiau â diddordeb i gasglu gwybodaeth, a gynorthwyodd i lywio ein strategaethau, ein polisïau a'n cynlluniau amrywiol yn ogystal â dylanwadu ar gyflwyno ein gwasanaethau.

Rydym yn ymwybodol bod nodi a chasglu gwybodaeth yn parhau i fod yn elfen allweddol, yn enwedig o ran y broses asesu effaith cydraddoldeb. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd peth gwelliant yn y ffordd rydym yn casglu ac yn dadansoddi data sydd gennym o ran defnyddwyr gwasanaeth a staff. Gyda datblygiad y Porthol i Weithwyr, bydd staff yn gallu diweddarau eu cofnodion unigol ac o ganlyniad bydd ein data cyflogaeth yn fwy cadarn.

Bydd y fenter proffilio cymunedau yr ymgymereir â hi gan Gymdeithas Cymunedau BME Castell-nedd Port Talbot yn darparu data penodol a chadarn am ein cymunedau BME, eu pryderon a'u profiadau o fyw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Drwy weithio gyda'r Gymdeithas Cymunedau, byddwn yn defnyddio'r data hwn i lywio datblygiad cynlluniau, strategaethau a gwasanaethau'r dyfodol.

## **Rhai enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2016-2017**

- Ymgymeryd â nifer o fentrau i annog a chefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan ac ymgysylltu wrth wneud penderfyniadau. Roedd rhai o'r mentrau hyn yn cynnwys y canlynol:
  - ❖ Sefydlwyd cyngor ieuenctid i blant sy'n derbyn gofal i roi llais i blant a phobl ifanc.
  - ❖ Dechreuwyd creu gwefan camfanteisio'n rhywiol ar blant. Bydd y wefan yn gyfrwng lle gellir rhannu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â materion camfanteisio'n rhywiol ar blant â rhieni a gofalwyr, yn ogystal â phlant a phobl ifanc. Rhagwelir y bydd y wefan yn weithredol yn ystod 2017.
  - ❖ Mae plant a phobl ifanc wedi bod yn ddylanwadol wrth ail-ddylunio deunyddiau ategol, megis llyfrynnau i blant sy'n derbyn gofal a ddarperir ar adeg adolygiad a thafleuni amddiffyn plant.
- Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chymorth i Ddiodefwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i gydlynu cyflwyno ymgyrchoedd troseddau casineb ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth ym mis Hydref 2016 i wella dealltwriaeth ac



adrodd am droseddau casineb.

- Fel rhan o Raglen Hyfforddiant Gwrth-gaethwasiaeth Bae'r Gorllewin, cynhaliwyd 64 o sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth a 25 sesiwn cinio a dysgu yn ystod y flwyddyn.
- Dan Raglen Ailsefydlu Syriaid y Swyddfa Gartref, gwnaethom ailsefydlu 5 teulu arall yn y fwrdeistref sirol yn ystod y flwyddyn ariannol. Rydym wedi gallu cyflawni ein hymrwymiad i ailsefydlu cyfanswm o 10 teulu ers 2015.
- Mae ein Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr yn cefnogi cynnwys y gymuned teithwyr gan helpu i feithrin cysylltiadau â'r adrannau iechyd a rhai perthnasol eraill yn y cyngor.
- Mae Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu cyflwyniad Powerpoint troseddau casineb ar gyfer pobl ifanc a threfnir i gyflwyno sesiwn i'w cyfoedion mewn ysgolion.
- Mae Cymunedau'n Gyntaf Castell-nedd Port Talbot a'r Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion a chlybiau ieuenctid ar weithgareddau cydlyniant cymunedol. Mae Cymunedau'n Gyntaf Castell-nedd Port Talbot wedi ariannu 10 sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth mewn ysgolion a dwy a gyflwynwyd i glybiau ieuenctid gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ac EYST.
- Rydym yn parhau i gefnogi'r Cyngor Pobl Hŷn sy'n mynd o nerth i nerth drwy ddarparu gwybodaeth i bobl hŷn yn ogystal â bod yn llais gwerthfawr i bobl hŷn yn yr holl weithgareddau cyfranogi gyda'r cyngor a phartneriaid eraill.
- Mae grwpiau cydraddoldeb lleol yn parhau i fod yn bwysig i ddatblygu amcanion cydraddoldeb ynghyd â chynlluniau, strategaethau a mentrau corfforaethol eraill ar gyfer gwasanaethau penodol.
- Gyda'r datblygiad arfaethedig o ysgolion newydd ym Margam a Llansawel, a'r posibilrwydd o dderbyn 1905 o ddisgyblion (3-16 a 3-11 oed), rydym yn ymwybodol bod hygyrchedd yn ystyriaeth allweddol ar y cam dylunio ar gyfer yr ysgolion a'r amgylchedd o'u hamgylch. Disgwylir i'r ddwy ysgol agor ym mis Medi 2018.
- Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar ysgol newydd ar gyfer campws y de Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur. Bydd yr ysgol yn cynyddu lleoedd i ddisgyblion oddeutu 200 i fodloni'r galw posib a bydd yn agor ym mis Medi 2018.
- Rydym yn parhau i gefnogi a datblygu ymhellach addysg Gymraeg mewn ysgolion a'r cymunedau ehangach. Mae ein cynlluniau hefyd yn ystyried twf yn y dyfodol i adlewyrchu cynnig Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y

siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) 2017-2020 newydd wedi'i lunio a'i gytuno gan y cyngor ym mis Mawrth 2017, ac mae gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth.
- Gwneir ymdrech barhaus i gefnogi dinasyddion yn y gymuned i barhau i fod yn annibynnol drwy amrywiaeth o wasanaethau ataliol megis technoleg gynorthwyol, cydlynu ardaloedd lleol a thrwy'r Model Ailalluogi Derbyniadau. Pan fydd pobl yn gymwys am ofal a chefnogaeth ffurfiol, darperir pecynnau priodol i ddiwallu anghenion dinasyddion ac annog annibyniaeth.

## **Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**

Mae diwygio'r broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb, sy'n cynnwys mwy o bwyslais ar ymgynghori, yr egwyddorion, manylion grwpiau cydraddoldeb lleol a chofnodi canlyniadau ymarferion ymgynghori'n well, yn ogystal ag adrannau ar effaith y strategaeth etc ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'i thrin yn gyfartal â'r Saesneg wedi'u derbyn yn dda.

Drwy gollu nifer sylweddol o staff dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol parhaus, yn bennaf drwy ein cynllun ymddeoliad cynnar/colli swydd yn wirfoddol, rydym wedi colli gwybodaeth a phrofiad helaeth sy'n dod yn fwyfwy amlwg. O ganlyniad, nid oes llawer o brofiad gan staff sydd bellach yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau a gwasanaethau wrth ymgymryd ag asesiadau. Er y darperir cefnogaeth wrth ymgymryd ag asesiadau ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod bod galw ehangach. Rydym yn ceisio datblygu rhaglen hyfforddiant i fynd i'r afael â hyn a newidiadau arfaethedig i'r broses adrodd weithredol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## **Gwybodaeth Benodol am Gyflogaeth**

Ceir adroddiad ar wahân am [Wybodaeth Cyflogaeth](#) ar gyfer y cyfnod 2016-2017.

Mae'r data wedi cael ei ddadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig rhyw, hil, anabledd ac oedran ac yn ôl meini

prawf penodol. Er bod y data mewn perthynas â'r nodweddion hyn o safon, mae bylchau yn yr wybodaeth y gallwn ei chasglu ar hyn o bryd o ran y nodweddion gwarchoddedig canlynol: ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred a thueddfryd rhywiol.

Mae'r data naill ai ar gyfer y cyfnod o 12 mis, 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017, neu, lle bo'n briodol, yn giplun o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2017.

## Adran 5 - Dweud eich dweud

Hoffem glywed eich barn am yr adroddiad hwn a'n hamcanion cydraddoldeb er mwyn ein helpu i wneud penderfyniadau ar faterion pwysig. Os hoffech rannu eich barn, e-bostiwch y Tîm Strategaethau Corfforaethol ar [corporate.strategy@npt.gov.uk](mailto:corporate.strategy@npt.gov.uk) neu ysgrifennwch at y Tîm Strategaethau Corfforaethol, CBS Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ.



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen Facebook y cyngor:

<https://www.facebook.com/NeathPortTalbotCBC>



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch eich trydarau at ein tudalen Twitter: @NPTCouncil

## Adran 6 - Mesurau Perfformiad

### Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

Rhif	Cyf	Mesur	2015-2016	2016-2017	Cyfeiriad Gwelliant
1	EQ1.1	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt	101	110	-
2	EQ1.2	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - anabledd	17	16	-
3	EQ1.3	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - hil	66	68	-
4	EQ1.4	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - crefydd	3	3	-
5	EQ1.5	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - tueddfryd rhywiol	14	22	-
6	EQ1.6	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - trawsrywiol	1	1	-
7	EQ1.7	Nifer yr atgyfeiriadau i'r Panel Channel	5	6	-
8	EQ1.8	Nifer yr atgyfeiriadau newydd i Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth/asiantaethau trais domestig arbenigol	-	1006	-
9	EQ1.9	Nifer yr ailgyfeiriadau i'r Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth/asiantaethau trais domestig arbenigol	-	1053	-

**Nodyn:** Troseddau casineb - nid yw'n bosib diffinio'n glir gyfeiriad y gwelliant gan na ellir nodi'n gywir y rheswm am y cynnydd yn nifer yr adroddiadau. Gallai'r rhesymau am y cynnydd mewn niferoedd fod oherwydd diffyg adrodd yn y gorffennol, mwy o hyder yn y broses adrodd, cynnydd go iawn yn nifer yr achosion etc. Bydd gwaith i ddeall y rhesymau'n well am y cynnydd mewn adrodd am droseddau casineb yn cael ei ystyried yn ystod 2017-2018.

**Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad i wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill**

Rhif	Cyf	Mesur	2015-2016	2016-2017	Cyfeiriad Gwelliant
10	EQ2.1	Nifer y gwe-dudalennau a ddiweddarwyd	-	<b>NEWYDD</b>	-
11	EQ2.2	% y gwe-dudalennau sydd ar gael yn Gymraeg	88%	99.9%	↑
12	EQ2.3	% y cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd i'r wefan am y tro cyntaf	-	<b>NEWYDD</b>	-
13	EQ2.4 (DBC/006)	Gwella'r radd broffesiynol ar gyfer ein gwe-dudalen o 1 seren (y radd uchaf yw 4 seren)	2	3	↑
14	EQ2.5 (DBC/007)	% y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n hapus gyda'r gwelliannau a wnaed i'r gwasanaeth sydd ar gael ar-lein - golwg a naws well	91%	97%	↑
15	EQ2.6 (DBC/008)	Mwy o'n cwsmeriaid yn ei chael hi'n haws defnyddio'r wefan: % y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n meddwl bod ein gwefan yn iawn o ran hwylustod defnyddio'r wefan	83%	91%	↑
16	EQ2.7 (DBC/009)	Gall mwy o'n cwsmeriaid gael mynediad i'r wybodaeth, canfod y wefan/gwasanaeth y mae ei angen arnynt yn fwy hwylus y tro cyntaf: % sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n hapus gyda chanfod yr wybodaeth/gwasanaethau	78%	84%	↑
17	EQ2.8 (DBC/010)	Nifer y cwsmeriaid a gynorthwyir i ddefnyddio opsiynau hunanwasanaeth gan staff Siop dan yr Unto'r Gwasanaethau Cwsmeriaid	-	<b>NEWYDD</b>	-

<b>Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad i wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill (parhad)</b>					
<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Mesur</b>	<b>2015-2016</b>	<b>2016-2017</b>	<b>Cyfeiriad Gwelliant</b>
18	<b>EQ2.9 (DBC/001)</b>	% y trafodion a gwblhawyd ar-lein (gweler Nodyn 1)	56.9%	67%	↑
19	<b>EQ2.10 (DBC/002)</b>	Nifer y gwasanaethau newydd sydd ar gael ar-lein	7	8	↑
20	<b>EQ2.11</b>	Nifer y bobl sy'n mynd i dudalennau arweiniad ar fformatau eraill	-	<b>NEWYDD</b>	-
21	<b>EQ2.12</b>	Nifer y cwynion a gefnogir sy'n ymwneud â chydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y cyngor/Safonau'r Gymraeg.	1 allan o 3	1 (yn rhannol) allan o 3	↔
<p>2015-2016 - roedd y gŵyn a dderbyniwyd ar 31 Mawrth 2016 yn ymwneud â diffyg negeseuon Cymraeg ar gyfrif Twitter corfforaethol y cyngor. Dywedwyd wrth yr achwynydd fod y cyngor eisoes wrthi'n sefydlu cyfrifon Twitter a Facebook corfforaethol yn Gymraeg, ac fe'i hysbyswyd bod y cyfrifon ar waith o fewn wythnos o dderbyn y gŵyn. Derbyniodd y cyngor ymateb a oedd yn canmol yr ymateb cyflym.</p> <p>2016-2017 - fel a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â 'methu' darparu gwasanaeth Cymraeg llawn ar y prif rif ffôn. O ganlyniad, rydym wedi newid y negeseuon ar yr opsiwn Cymraeg e.e. pan na fydd gwasanaeth ar gael ac rydych yn aros am swyddog, yn ogystal â gweithio gyda nifer cyfyngedig o staff sy'n siarad Cymraeg yn y ganolfan alwadau i sicrhau bod trefniadau addas ar waith i ddelio â galwadau ffôn Cymraeg.</p>					

**Nodyn:** Mae data ar gyfer y mesur hwn yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau canlynol a roddwyd ar waith h.y. nwyddau swmpus ar-lein, archebu offer sbwriel ac ailgylchu ar-lein, adrodd am leoliadau, adrodd am gasgliadau gwastraff a gollwyd, trefnu apwyntiadau i reoli pla a chyflwyno ceisiadau am hawlenni faniau ar-lein. Bydd data ar gyfer gwasanaethau ar-lein eraill yn cael eu cynnwys yn y data cyn gynted â phosib.

**Amcan Cydraddoldeb 3: Gwella mynediad i wasanaethau drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle y bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill - y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Rhif	Cyf	Mesur	2015-2016	2016-2017	Cyfeiriad Gwelliant
22	EQ3.1	Nifer yr oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gan y Gwasanaethau i Oedolion ar 31 Mawrth 2017	NEWYDD	2,567	-
23	EQ3.2	Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau i Blant ar 31 Mawrth 2017	NEWYDD	1,138	-
24	EQ3.3	Nifer y gofalgwyr a aseswyd ar 31 Mawrth 2017	NEWYDD	355	-

**Amcan Cydraddoldeb 4: Monitro gwybodaeth a data yn effeithiol er mwyn nodi anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig**

Rhif	Cyf	Mesur	2015-2016	2016-2017	Cyfeiriad Gwelliant
25	EQ4.1	Nifer yr Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ac a adroddwyd i'r Bwrdd Cabinet perthnasol	NEWYDD	26	-
26	EQ4.2	Nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y canlynol: Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du (BME) Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd	6 5	6 5	↔ ↔
Fforwm BME - cafwyd aelodaeth ehangach o hyd at 30 ond roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd/digwyddiadau'n achlysurol.					

<b>Amcan Cydraddoldeb 5: Cyflwyno hyfforddiant i staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb</b>					
<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Mesur</b>	<b>2015-2016</b>	<b>2016-2017</b>	<b>Cyfeiriad Gwelliant</b>
27	EQ5.1	Nifer y staff sy'n mynychu hyfforddiant ar bob testun penodol	424	1319 (roedd 760 yn staff CNPT)	↑
<p>Cyflwynwyd hyfforddiant Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Ymwybyddiaeth Sipsiwn yn 2015-2016 yn unig. Cyflwynwyd hyfforddiant amrywiaeth diwylliannol yng nghyd-destun Cymru, Prevent, Anabledd, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer Gofalwyr Maeth yn 2016-2017 yn unig. Roedd sesiynau hyfforddiant ar gael i bartneriaid allanol yn ystod y flwyddyn.</p>					

<b>Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill</b>					
<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Mesur</b>	<b>2015-2016</b>	<b>2016-2017</b>	<b>Cyfeiriad Gwelliant</b>
28	EQ6.1	Nifer y cwynion a dderbyniwyd o ran hygyrchedd	0	0	↔
29	EQ6.2	% y cwynion a gefnogwyd o ran hygyrchedd	0	0	↔
30	EQ6.3	% yr oedolion 60+ oed sy'n meddu ar docyn bws rhatach	92.1%	93.75%	↑



**Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill (parhad)**

Rhif	Cyf	Mesur	2015-2016	2016-2017	Cyfeiriad Gwelliant
31	EQ6.4	Nifer y teithiau sgwteri symudedd a drefnwyd gan Shopmobility Castell-nedd Port Talbot	3,454 4,993	2,900 4,901	↓
<p><b>Castell-nedd</b> Collwyd nifer mawr o gwsmeriaid yn dilyn adleoli'r gwasanaeth i'r maes parcio aml-lawr newydd. Ymddengys hyn yn rhannol oherwydd ceir arwyddion gwael i'r lleoliad newydd (symudwyd arwyddion a oedd yn dargyfeirio defnyddwyr o'r safle blaenorol pan gafodd y caban ei ddymchwel). Arweiniodd hyn at ymdrech fawr i gysylltu â chwsmeriaid a'u perswadio i ailymuno. Yn ogystal, roedd parcio am ddim ar gael yn y lleoliad blaenorol (maes parcio'r Stryd Fawr), mae taliadau parcio ar waith yn y maes parcio aml-lawr newydd. Er bod defnydd wedi gostwng yn sylweddol ers symud, mae ffigurau o 1,815 rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017 yn dangos gwelliant.</p> <p><b>Port Talbot</b> Mae defnydd yn weddol sefydlog, sef ychydig dan 5,000 o deithiau'r flwyddyn, gyda ffigurau o 2,312 o deithiau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017 yn cefnogi hyn.</p>					
32	EQ6.5	Nifer y cwsmeriaid sydd wedi cofrestru gyda Shopmobility Castell-nedd Port Talbot	136 380	110 261	↓
<p><b>Castell-nedd</b> Mae'r gwasanaeth yn hyderus bod cwsmeriaid yn dechrau dychwelyd yn araf bach gyda 82 o gwsmeriaid newydd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd.</p> <p><b>Port Talbot</b> Mae nifer y defnyddwyr, 114, a gafwyd yn chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd yn amlygu'r gred bod y dirwasgiad yn dechrau bwrw Port Talbot. Nodwyd hefyd fod 50% o ddefnyddwyr newydd y tu allan i'r fwrdeistref sirol e.e. ardaloedd Maesteg/Pen-y-bont ar Ogwr</p>					

<b>Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchoddedig</b>					
<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Mesur</b>	<b>2015-2016</b>	<b>2016-2017</b>	<b>Cyfeiriad Gwelliant</b>
<b>33</b>	<b>EQ7.1</b>	% y merched sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen	89.35%	89.20%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen	77.53%	78.02%	↑
<b>34</b>	<b>EQ7.2</b>	% y merched sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen	88.81%	88.41%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen	79.88%	82.52%	↑
Er bod y bwllch cyrhaeddiad rhwng merched a bechgyn wedi culhau ym mlwyddyn academaidd 2016-2017 yn y ddau faes (llythrennedd 11.18% a rhifedd 5.89%), mae cyflawniad merched eleni ychydig yn is ac mae'r bechgyn wedi dangos gwelliant, yn arbennig yn rhifedd					
<b>35</b>	<b>EQ7.3</b>	% y merched sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2	90.23%	91.21%	↑
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2	83.78%	83.75%	↓
<b>36</b>	<b>EQ7.4</b>	% y merched sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2	89.97%	90.03%	↑
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2	86.82%	85.18%	↓
Mae'r bwllch cyrhaeddiad rhwng merched a bechgyn wedi cynyddu (2015-2016: llythrennedd 6.45% a rhifedd 7.46%; a 2016-2017: llythrennedd 3.15% a rhifedd 4.90%). Nid yw hyn oherwydd lefelau perfformiad uwch gan ferched ond hefyd lefelau perfformiad is gan fechgyn					

<b>Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchoddedig (parhad)</b>					
<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Mesur</b>	<b>2015-2016</b>	<b>2016-2017</b>	<b>Cyfeiriad Gwelliant</b>
<b>37</b>	<b>EQ7.5</b>	% y merched sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3	90.80%	92.42%	↑
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3	78.64%	79.44%	↑
<b>38</b>	<b>EQ7.6</b>	% y merched sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3	86.93%	88.71%	↑
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3	79.31%	80.24%	↑
Er bod perfformiad bechgyn a merched wedi gwella, mae'r bwch cyflawniad wedi lledaenu gan nad yw perfformiad bechgyn wedi rhagori ar y merched.					
<b>39</b>	<b>EQ7.7</b>	% y merched sy'n cyflawni Lefel 2 mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 4	76.06%	73.80%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 2 mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 4	63.84%	52.82%	↓
<b>40</b>	<b>EQ7.8</b>	% y merched sy'n cyflawni Lefel 2 mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4	64.87%	60.62%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 2 mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4	69.20%	58.08%	↓
Cafwyd gostyngiad sylweddol yng nghyflawniad bechgyn ar draws y meysydd llythrennedd a rhifedd (11.02% ac 11.12%). Mae cyflawniad merched yn y ddau faes hefyd wedi gostwng yn sylweddol. O ganlyniad i'r lefelau cyflawniad is mewn llythrennedd, mae'r bwch cyflawniad rhwng bechgyn a merched yn dangos cynnydd sylweddol, o 12.22% ym mlwyddyn academaidd 2015-2016 i 20.98% yn 2016-2017.					

**Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchoddedig (parhad)**

Rhif	Cyf	Mesur	2015-2016	2016-2017	Cyfeiriad Gwelliant
41	EQ7.9	% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd:	94.55%	94.69%	↑
		merched:	94.60%	94.72%	↑
		bechgyn:	94.50%	94.65%	↑
		disgyblion nad ydynt yn wyn Prydeinig	94.19%	94.25%	↑
		disgyblion sy'n wyn Prydeinig	94.58%	94.74%	↑
		disgyblion ag anghenion addysgol arbennig	93.65%	93.74%	↑
		disgyblion heb anghenion addysgol arbennig	94.90%	95.08%	↑
		disgyblion sy'n deithwyr	86.88%	86.88%	↔
		disgyblion nad ydynt yn deithwyr	95.12%	95.12%	↔
42	EQ7.10	% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	93.56%	93.38%	↓
		merched:	93.61%	93.63%	↑
		bechgyn:	93.43%	93.14%	↓
		disgyblion nad ydynt yn wyn Prydeinig	94.71%	94.67%	↓
		disgyblion sy'n wyn Prydeinig	93.64%	93.59%	↓
		disgyblion ag anghenion addysgol arbennig	91.37%	91.54%	↑
		disgyblion heb anghenion addysgol arbennig	94.65%	94.52%	↓
		disgyblion sy'n deithwyr	86.60%	85.63%	↓
		disgyblion nad ydynt yn deithwyr	93.71%	93.66%	↓

**Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchodedig (parhad)**

Rhif	Cyf	Mesur	2015-2016	2016-2017	Cyfeiriad Gwelliant
43	EQ7.11	Nifer y gwaharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd	0	1	↓
		Bechgyn:	0	1	↓
		Merched:	0	0	↔
		AAA	0	0	↔
		Teithwyr	0	0	↔
		BME	0	0	↔
44	EQ7.12	Nifer y gwaharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd	19	12	↑
		Bechgyn:	15	11	↑
		Merched:	4	1	↑
		AAA	15	6	↑
		Teithwyr	0	0	↔
		BME	0	0	↔

**Amcan Cydraddoldeb 8: Sicrhau bod ein prosesau cyflogi a recriwtio'n hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb**

Rhif	Cyf	Mesur	2015-2016	2016-2017	Cyfeiriad Gwelliant
45	EQ8.1	Nifer y staff sy'n mynd i hyfforddiant recriwtio	14	21	↑
46	EQ8.2	% y cyfranogwyr a fu mewn sesiynau hyfforddiant a oedd yn ystyried bod eu gwybodaeth wedi gwella	100%	87%	↓
47	EQ8.3	Nifer y cwynion recriwtio	0	0	↔
48	EQ8.4	Nifer y dechreuwyr newydd sy'n dechrau uwchben pwynt isaf y raddfa	17	24	↑

Allwedd Perfformiad	
↑	Perfformiad wedi gwella
↔	Perfformiad wedi'i gynnal
↓	Perfformiad wedi dirywio
-	Dim data cymaradwy (data ddim yn addas ar gyfer cymharu/dim data ar gael ar gyfer cymharu)